

# Strategaeth Ymgynghori ac Ymglymiad - 2013-2017

**Gweledigaeth** 'Sefydliad sy'n ceisio deall profiadau, anghenion a dewisiadau pobl, yn gwrandao ac yn ystyried yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, ac mae'n defnyddio hyn a ddysgant i helpu i lunio gwasanaethau Cyngor, fel bod pobl yn cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau lleol sy'n effeithio arnynt

## Rhoi gwybod

Byddwn yn darparu gwybodaeth berthnasol a hygyrch sy'n diffinio yn glir yr hyn y gellir ac na ellir ei newid, ac yn caniatáu ymgynghori ac ymgysylltu

## Ymchwil

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth fel setiau data cenedlaethol a gwybodaeth i gwsmeriaid lleol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau

## Ymgynghori

Byddwn yn ymofyn barn ar bwnc neu fater penodol i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau

## Cydweithio

Byddwn yn adeiladu perthynas a deialogau parhaus gyda chymunedau i archwilio, deall a datrys materion gyda'n gilydd

## Awdurdodi

Byddwn yn cefnogi pobl i gymryd rhan a datblygu arbenigedd er mwyn galluogi cymunedau i ddylanwadu ar benderfyniadau, a lle bo'n bosibl yn cymryd rhai penderfyniadau eu hunain

## Pam?

- Er mwyn galluogi dinasyddion i ddylanwadu ar benderfyniadau a chynyddu ymgysylltiad a hyder y cyhoedd mewn llywodraeth leol
- Er mwyn darparu tystiolaeth i lywio penderfyniadau a hyrwyddo gwell defnydd o adnoddau a gwasanaethau mwy effeithlon a gwasanaethau cost effeithiol ar sail angen
- Er mwyn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd am yr hinsawdd ariannol bresennol a'r penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud, a chynnwys dinasyddion wrth lunio gwasanaethau'r dyfodol
- Un o'r blaenoriaethau ar draws cynlluniau a pholisïau Llywodraeth Cymru, ac yn 'Ein Cynllun Wrecsam' a Chynllun y Cyngor
- Hamlygu fel maes ar gyfer gwella ar gyfer y Cyngor gan reoleiddwyr

## Ble ydym ni nawr?

Dim ond 25% o bobl yn Wrecsam sydd yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012/13)

Byddai 50% o bobl yn Wrecsam yn hoffi i fod yn fwy o ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012/13)

"Dylai'r Cyngor wrando ar [bobl leol] a chymryd sylw o'r hyn a glywant" (Materion allweddol ar gyfer ymatebydd i'r arolwg yn Wrecsam 2012)

"Dylai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu dull mwy cydlynol" (Swyddfa Archwilio Cymru)

## Beth wnawn ni?

Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o anghenion, barn a phrofiadau pobl, drwy ymgynghori ac ymgysylltu, a defnyddio'r wybodaeth hon ochr yn ochr â thystiolaeth arall, er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- Sefydlu diwylliant o ymgynghori ac ymgysylltu ar draws yr holl Aelodau a Swyddogion
- Datblygu dull cydlynol a chydgyssylltiedig i ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y sefydliad
- Sicrhau bod ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu yn effeithiol a chynhwysol sy'n gosod disgwyladau rhesymol ynghylch yr hyn y gellir ac na ellir ei newid fel canlyniad
- Gwella dadansoddi, dehongli a rhannu gwybodaeth i lywio penderfyniadau
- Cynyddu effaith canfyddiadau ar wneud penderfyniadau i lunio gwasanaethau yn seiliedig ar angen a hyrwyddo gwell defnydd o adnoddau
- Gwella gwerthuso ac adborth ar weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu, fel bod pobl yn deall sut mae barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau ac os ddim, pam ddim
- Cydweithio â phartneriaid ar draws Wrecsam a Gogledd Cymru

## Sut fydd llwyddiant yn edrych?

- Cynnydd yng nghanran y bobl leol sydd yn ymateb i'r Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol

**25%**

(Mwy na 25% o ymatebwyr i'r arolwg)